**Adroddiad i:** **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**

**Dyddiad y cyfarfod** 14 Mehefin 2024

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd Jason McLellan, Cyngor Sir Ddinbych**
Y Cynghorydd Charlie, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Awdur yr Adroddiad:** Amanda Jones a Hannah Edwards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Iolo McGregor (Cyngor Sir Ddinbych), Helen Millband ac Iona Hughes (Cyfoeth Naturiol Cymru), Mike Corcoran a Caryl Lewis (Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru)

**Teitl:** Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2023-24

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae Adroddiad Blynyddol 2023/24 yn rhoi trosolwg o beth mae'r Bwrdd wedi ei gyflawni yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Lles diweddaraf (gweler atodiad A). Mae'n bwysig bod y BGC yn atebol i'r cyhoedd ac mae'r adroddiad hwn yn cynorthwyo'r BGC i hunan-fyfyrio ar ble maent yn teimlo eu bod yn gwneud gwahaniaeth, yn unol â'r 5 ffordd o weithio yn ogystal ag amlinellu cyfeiriad y Bwrdd yn y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae angen i BGC Conwy a Sir Ddinbych baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ddim hwyrach na 14 mis ar ôl cyhoeddi ei gynllun Lles.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau yn ystyried yr adroddiad blynyddol a'r dangosyddion cyd-destunol lefel uchel y manylir arnynt, a rhoi adborth fel bo angen.

3.2 Bod yr aelodau yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2023/24 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych i'w gyhoeddi.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r canllawiau a ddarparwyd ar gyfer y ddeddf yn nodi bod rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd i gyflawni'r amcanion a osodwyd yn eu cynllun llesiant. Fodd bynnag gall yr adroddiad hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r Bwrdd yn ei ystyried yn briodol. Felly mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu -

- Cyflawniadau eleni;
- Meysydd gwaith eraill:

- Myfyrdod y Bwrdd ar ôl eleni ac edrych ymlaen; a
- Sut gall pobl gymryd rhan.

4.2 Mae'r adroddiad blynyddol yn rhoi manylion rhai mesurau cyd-destunol allweddol hefyd, sy'n berthnasol i'n themâu lles. Mae'r rhain yn ddangosyddion lefel uchel sy'n esbonio pam fod y themâu yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y BGC, ac yn helpu i lywio'r drafodaeth wrth symud ymlaen.

4.2 Mae angen i'r Bwrdd anfon copi o'u hadroddiad blynyddol at Weinidogion Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu dynodedig y Bwrdd.

**5. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

5.1 Ymgynghorwyd â swyddogion sy'n darparu cefnogaeth i'r BGC.

**6. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

6.1 Amherthnasol

**7. Pŵer i wneud y penderfyniad**

7.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.